25.08.2022

Heledd Williams
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880364

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Y gorau o Lorient 2022

Bob blwyddyn, am ddeg diwrnod a deg noson, mae dinas fach Lydaweg Lorient yn dod yn fyw gyda sŵn a lliw gŵyl arbennig. Festival Interceltique de Lorient yw gŵyl Geltaidd fwya'r byd, lle mae dros 800,000 o bobl yn heidio i ddathlu'r hyn sy'n uno rhai o genhedloedd hynaf y byd - y traddodiad Celtaidd a hynny trwy ddawns, chwedl a chân. Mae'r Ŵyl yn cyfuno pob math o gerddoriaeth o'r gwledydd Celtaidd, o pop modern i'r gwerin, roc, jazz.

Mewn rhaglen arbennig fydd i'w gweld ar  Nos Sul 4 Medi, cawn gamu i mewn i'r ŵyl arbennig yma, a phrofi rhai o'r perfformiadau cerddorol, yn ogystal â rhai o'r gweithgareddau diwylliannol eraill y mae'r ŵyl yn cynnig.

Y delynores Cerys Hafana, Azenor Kallag y Llydawes sydd wedi dysgu Cymraeg, a'r canwr Gwilym Bowen Rhys fydd yn cyflwyno.

Mae Gwilym, sy'n byw ym Methesda, ac yn wyneb cyfarwydd ar y sin canu gwerin yng Nghymru wedi cael y profiad o ganu yn yr ŵyl:

"Nes i ganu 6 gwaith eleni – bron bob dydd. 2015 oedd y tro cyntaf i mi fynd i'r ŵyl; ges i wahoddiad i ganu yna'r adeg hynny, ac es i eto yn 2018. Bob blwyddyn mae un o'r gwledydd yn cael mwy o sylw, a blwyddyn Cymru oedd hi yn 2018.

"Mae 'na falchder a chyfrifoldeb o gynrychioli dy wlad. Mae pobl yn dod i bafiliwn Cymru yn chwilfrydig i weld beth sydd gennym i'w gynnig, ac rwyt ti angen cyflwyno popeth drwy gyfrwng Ffrengig a dipyn o Lydaweg. Mae'r cynulleidfaoedd newydd yn hollol wych. Maen nhw yna i ddarganfod grwpiau newydd ac i brynu CDs ac i gefnogi'r grwpiau yma, felly mae'r ymateb fel arfer yn hollol wych."

Ymysg y gwledydd Celtaidd - Cymru, Cernyw, Llydaw, Iwerddon, yr Alban ac Ynys Manaw - mae Galicia ac Asturias, sy'n genhedloedd yng ngogledd Sbaen hefyd yn cael cynrychiolaeth yn y digwyddiad. Ac er bod nhw ddim yn siarad ieithoedd Celtaidd, mae yna gysylltiad hanesyddol, diwylliannol.

Meddai Gwilym: "Mae o'n gyfle grêt i ddod a lot o'r cenhedloedd gydag ieithoedd lleiafrifol at ei gilydd i ddysgu oddi wrth ein gilydd ac i ysbrydoli'n gilydd mewn ffordd. A ti'n mynd adre'n llawn tân yn dy fol i gyfrannu ac i gario 'mlaen i gyd-greu pethau newydd. Ond hefyd, mae'n llwyfan blynyddol a chyson i Gymru".

Yn y rhaglen, cawn berfformiadau gan Nogood Boyo, Alffa, TeKeMat (band techno o Ffrainc), Cerys Hafana a Léa (cyd-brosiect rhwng Cymru a Llydaw), Shamoniks a Krismenn (cyd-brosiect rhwng Cymru a Llydaw) a The Rowan Tree (o Gernyw) i enwi rhai.

“Mae ‘na rywbeth i bawb o bob oed yna” meddai Gwilym. “Yn wahanol i’r Eisteddfod, dydi o ddim mewn maes cyfyngedig; mae o’n debycach i sut oedd Eisteddfod Caerdydd. Lot o ddawnsio ar y stryd, gorymdeithio, ac wedyn mae bob gwlad efo ardal, neu bafiliwn ei hunain efo’u bandiau’n chwarae. Felly ti’n medru mynd o babell i babell. Mae’r awyrgylch yn fywiog iawn; mae’r dref yn dod yn fyw drwy’r wythnos, ac mae ‘na fariau yn y dref yn cynnal stwff eu hunain.

“Yn y rhaglen gawn ni weld perfformiadau gan grwpiau o Gymru ond hefyd grwpiau o wledydd eraill, cawn dipyn o flas o’r dref tu allan i’r ŵyl, cyfweliadau - ac anturiaethau! Eleni, tro Estwrias, cenedl yng ngogledd Sbaen; un o’r pethau maen nhw’n enwog am ydi seidr, ac maen nhw’n tollti’r seidr o uchder mawr. Felly gewch chi weld fi’n trio ‘ngorau i wneud hynny.”

**Lorient 2022**
**Dydd Sul, 4 Medi, 9.00 S4C**
**Isdeitlau Cymraeg a Saesneg**
**Ar alw: S4C Clic; BBC iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Orchard ar gyfer S4C**

25.08.2021

Heledd Williams
Cyswllt Contact
03305 880364

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# The best of Lorient 2022

Every year, for 10 days and 10 nights, the small Breton city of Lorient comes alive with the sound and colour of a special festival. Festival Interceltique de Lorient is the world's largest Celtic festival, where more than 800,000 people flock to celebrate what unites some of the world's oldest nations - the Celtic tradition through dance, legends and song. The Festival combines all types of music from the Celtic countries, from modern pop to folk, rock, jazz.

In a special programme on Sunday 4 September, we step into this special festival, and experience some of its musical performances, as well as some of the other cultural activities that the festival has to offer.

Harpist Cerys Hafana, Azenor Kallag from Brittany who has learnt Welsh, and the singer Gwilym Bowen Rhys will present the programme.

Gwilym, who lives in Bethesda, and is a familiar face on the folk scene in Wales, has had the experience of singing at the festival:

"I sang six times this year - almost every day. 2015 was the first time I attended; I was invited to sing there at that time, and I went again in 2018. Every year one of the countries is the 'host', and it was Wales's year in 2018.

"There's a feeling of pride but also responsibility in representing your country. People who visit Wales's performance are curious to see what we have to offer, and you need to introduce your set through the medium of French and a bit of Breton. The new audiences are absolutely fantastic. They're there to discover new groups, to buy CDs and to support, so the response is usually absolutely fantastic."

Among the Celtic countries - Wales, Cornwall, Brittany, Ireland, Scotland and the Isle of Man - Galicia and Asturias, which are nations in the north of Spain, are also represented at the event. And even though they don't speak Celtic languages, there is a historical, cultural connection.

"It's a great opportunity to bring a lot of the nations with minority languages together to learn from each other and to inspire each other," said Gwilym. "You go home full of fire in your belly to contribute and to continue co-creating new things. It's an annual and constant platform for Wales."

In the programme, there will be performances from Nogood Boyo, Alfa, TeKeMat (French techno band), Cerys Hafana and Léa (a joint project between Wales and Brittany), Shamoniks and Krismenn (a joint project between Wales and Brittany) and The Rowan Tree (from Cornwall) to name a few.

"There's something for everyone of all ages," said Gwilym. "Unlike the Eisteddfod, it's not held in a limited area; it's similar to how the Eisteddfod was at Cardiff. There's lots of dancing in the street, and each country has its own area, or pavilion with their bands playing. So you can go from one stage to another. The atmosphere is really lively; the town comes alive all week, and there are bars in the town holding their own entertainment.

"In the programme you'll see performances by groups from Wales and other countries, you'll get a taste of the town outside the festival, and plenty of interviews and adventures! This year, it was the turn of Asturias (a nation in the north of Spain) to host; one of the things they are famous for is cider, and they pour the cider from a great height. So you'll get to see me try my best at that!"

**Lorient 2022**
**Sunday 4 September 9.00, S4C**
**English and Welsh subtitles available**
**On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms**
**An Orchard production for S4C**